Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gyfun Rhydywaun

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae disgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun yn elwa'n fawr o brofiadau dysgu ysgogol mewn amgylchedd ofalgar lle mae perthnasoedd gwaith cynhaliol rhwng staff a disgyblion yn sail i ddysgu effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio'u gwersi'n ofalus ac yn meithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn briodol i'w hoed a'u gallu. Mewn ychydig o wersi, mae'r addysgu'n ysbrydoledig, gyda gweithgareddau creadigol a holi treiddgar yn datblygu dealltwriaeth ddofn a brwdfrydedd ymhlith disgyblion.

Un o gryfderau amlwg yr ysgol yw'r dull eang a chreadigol o ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion. Mae mentrau fel 'Llais Rhydywaun' a 'Dim ond darllen' yn sicrhau bod darpariaeth strategol ac ymarferol yn cefnogi datblygiad medrau llafar, darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn arwain at waith o safon uchel, megis dadansoddi testunau llenyddol yn Gymraeg neu drafodaethau rhesymegol ar bynciau hanesyddol. Yn ogystal, mae'r ysgol wedi llunio trefniadau cryf iawn i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys trefniadau trosglwyddo effeithiol, cynllunio personol a chydweithio ystyrlon â staff a rhieni. Mae'r ddarpariaeth hon yn cefnogi'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn i wneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Er bod llawer o gryfderau, mae ychydig o feysydd lle gall yr ysgol fireinio ei dulliau ymhellach. Er enghraifft, er bod gweithgarwch hunanwerthuso yn eang a thrylwyr, nid yw'r camau gweithredu dilynol bob amser yn ddigon penodol. Yn yr un modd, er bod arweinwyr yn cydweithio â'r awdurdod lleol i reoli cyllideb yr ysgol a lleihau'r ddyled ariannol, nid ydynt bob amser yn monitro gwariant yn ddigon strategol.

Mae arweinyddiaeth o ansawdd uchel yn graidd i lwyddiant yr ysgol. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arwain yn cynnig cyfeiriad clir a chefnogol, ac mae ganddynt weledigaeth bwrpasol sydd wedi'i gwreiddio'n gadarn yn lles a dyheadau disgyblion. Mae diwylliant o arweinyddiaeth ystyriol yn cyfrannu at awyrgylch hapus lle mae staff a disgyblion yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r safonau gorau posibl. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos balchder amlwg yn eu hysgol, gan ymateb yn gadarnhaol i'r disgwyliadau clir o dan faner 'Ffordd Rhydywaun'.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Miniogi prosesau hunanwerthuso, yn enwedig y camau gweithredu ar gyfer gwella

A2 Cryfhau'r rheolaeth gyllidol, gan gynnwys y defnydd o'r grant datblygu disgyblion

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â datblygu medrau llythrennedd disgyblion, a'r dull ysgol gyfan a'r ddarpariaeth i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/05/2025